# Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

**2014 dccc 4**

## RHAN 5

CODI FFIOEDD AC ASESIADAU ARIANNOL

*Gorfodi dyledion*

### 71 Creu arwystl dros fuddiant mewn tir

(1) Pan fo person—

(a) yn methu â thalu i awdurdod lleol swm y gallai'r awdurdod ei adennill o dan y Rhan hon, a

(b) yn meddu ar fuddiant cyfreithiol neu lesiannol mewn tir yng Nghymru neu Loegr,

caiff yr awdurdod lleol greu arwystl o blaid yr awdurdod hwnnw dros fuddiant y person yn y tir i sicrhau bod y swm hwnnw'n cael ei dalu.

(2) Pan fo gan y person fuddiannau mewn mwy nag un parsel o dir, caiff yr awdurdod lleol greu arwystl dros ba un bynnag o'r buddiannau hynny y mae'n ei ddewis.

(3) Caiff yr arwystl fod mewn cysylltiad ag unrhyw swm y gallai'r awdurdod lleol ei adennill o dan y Rhan hon; ond mae hynny'n ddarostyngedig i is-adran (4).

(4) Pan fo'r arwystl yn cael ei greu dros fuddiant cyd-denant ecwitïol mewn tir, ni chaniateir i swm yr arwystl fod yn fwy na gwerth y buddiant a fyddai gan y person yn y tir pe bai'r gyd-denantiaeth yn cael ei hollti (ond nid yw creu'r arwystl yn hollti'r gyd-denantiaeth).

(5) Pan fo cyd-denant ecwitïol mewn tir y mae ei fuddiant yn y tir yn ddarostyngedig i arwystl o dan yr adran hon yn marw, mae buddiant y personau canlynol mewn tir yn dod yn ddarostyngedig i arwystl—

(a) os oes unrhyw cyd-denantiaid sy'n goroesi, eu buddiannau yn y tir;

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Adran 71 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 10 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

(b) os yw'r tir wedi ei freinio mewn un person, neu y mae hawl gan un person i gael y tir wedi ei freinio ynddo ef, buddiant y person hwnnw yn y tir.

(6) Ni chaniateir i swm yr arwystl sydd wedi ei greu o dan is-adran (5) fod yn fwy na swm yr arwystl yr oedd buddiant y cyd-denant ymadawedig yn ddarostyngedig iddo.

(7) Rhaid i arwystl o dan yr adran hon gael ei greu gan ddatganiad ysgrifenedig a wneir gan yr awdurdod lleol.

(8) Mae arwystl o dan yr adran hon, ac eithrio ffi dros fuddiant cyd-denant ecwitïol mewn tir—

(a) yn achos tir anghofrestredig, yn bridiant tir Dosbarth B o fewn ystyr adran 2 o Ddeddf Pridiannau Tir 1972;

(b) yn achos tir cofrestredig, yn arwystl cofrestradwy sy'n dod yn weithredol fel arwystl drwy gyfrwng morgais cyfreithiol.

(9) Pan fo swm yn destun arwystl dros fuddiant person mewn tir o dan yr adran hon, caniateir codi llog ar y swm hwnnw o'r diwrnod y mae'r person a grybwyllwyd yn is-adran (1) yn marw.

(10) Cyfradd y llog y gellir ei godi o dan is-adran (9) yw—

(a) cyfradd a bennir mewn rheoliadau neu a ddyfernir yn unol â hwy, neu

(b) os nad oes rheoliadau wedi eu gwneud, cyfradd a ddyfernir gan yr awdurdod lleol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 71 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 199(2)**

**I2** A. 71 mewn grym ar 6.4.2016 gan O.S. 2016/412, **ergl. 2** (ynghyd ag ergl. 4, Atod. 1, Atod. 2)

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Adran 71 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 10 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to the whole Act associated Parts and Chapters:**
Whole provisions yet to be inserted into this Act (including any effects on those provisions):

- s. 162(4)(ga) inserted by 2022 asc 1 Sch. 4 para. 30(2)(b)
- s. 163(4A) inserted by 2014 c. 23 s. 75(10) (Effect inserting (4) not applied at s. 163 as it appears to relate to s. 194 in view of the title of the section as cited i.e. "ordinary residence". In s. 194 another (4), identically worded, is inserted on the same date by S.I. 2016/413, regs. 2(1), 316(a))